

Cofnodion o Cyfarfod Cyngor Cymuned Llangeitho a gynhelir ar nos Lun
2 Tachwedd 2020 arlein, trwy zoom am 8 o'r gloch
Minutes of Llangeitho Community Council Meeting held on Monday,
2 November 2020, online through Zoom at 8pm

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a chroesawyd gwynebau newydd i'r cyfarfod dros Zoom.

Presennol/Present

Cyng Gwenfair Owen (Gadair/Chair), Daniel Thomas, Dafydd Morse, Rhian Turner, Beryl Evans, Gwilym Evans, Gerwyn Ebenezer, John Evans, Eirian Jones a Cyng/Cllr Rhodri Evans.

Ymddiheuriadau/Apologies – Cyng/Cllr Paul Rooke & Cyng/Cllr Emyr Jones.

Datgan Diddordeb/Declaration of Interest – Neb / No one

Cofnodion y cyfarfod diwethaf/Minutes of previous meeting

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf ar gynnig Cyng Beryl Evans ac eiliwyd gan Cyng Dafydd Morse.

Materion yn codi o'r cofnodion/Matters arising from minutes

- Crwbin Quarries yn mynd i ffonio'r clerc i gwrdd pan fyddai yn yr ardal, Clerc yn awgrymu cael Cynghorydd arall yn bresennol hefyd i drafod am yr hen ffynnon a leolir o dan y goeden Ywen. Cyng Rhodri Evans yn aros am ymateb oddi wrth Paul Evans i weld a oes yna orchymyn cadw arni. Lampeter Tree Service yn fodlon rhoi amcan bris i'r Cyngor Cymuned unwaith fyddai cadarnhad wedi'u dderbyn am y gorchymyn cadw.
- Cyng Rhodri Evans mewn trafodaethau efo'r Sir am yr angen a'r posibilrwydd o gael golau yn fflachio ar bwys yr Ysgol gynradd ond mae'n broses hir iawn ac angen gwneud asesiad o'r cynllun. Clerc i gysylltu â'r Cyngor Sir gan gopïo'r Cynghorydd Sir mewn i'r drafodaeth.
- Copi o'r contract wedi cyrraedd i arwyddo am fabwysiadu'r ciosg yn Rhydypany, Clerc i gylchredeg y contract i'r Cynghorwyr ac anfon copi i Un Llais Cymru iddynt gael edrych dros y contract yn gyfreithiol.
- Cyng Gwilym Evans yn cadarnhau nad oes yna arwydd ar ben lôn Pant yr Esgair, sy'n mynd lawr ffordd Lluet, Rhydcerrig, Pencraig Fach, Tyngwndwn a Ochor Esgair ym Mhenuwch.
- Cyng Rhodri Evans yn cadarnhau bod y gwaith o ail ddodi arwydd ffordd sy'n dangos graddiant y ffordd lawr o Gaerlwyd, Llwynpïod am y rhiw lawr, mewn llaw.

Gohebiaeth/Correspondence

- E-bost wedi'u dderbyn oddi wrth Mr Trevor Storeton-West yn gwneud ymholiad am ei gonsyrn am ddyfodol Llyn Fanod yn dilyn diweddar berchennog y ddaear dan sylw. Cyng Gerwyn Ebenezer yn cadarnhau ei fod wedi trafod y mater dan sylw efo Mr Storeton-West.
- Clerc yn cadarnhau cwblhau'r ffurflen 'The Pensions Regular – dyletswyddau enrolment awtomatig'.
- Clerc wedi cylchredeg drwy e-bost manylion am 'Traws Link Cymru – Ymgyrch Rheilffordd Gorllewin lle dangosir cyfeiriad gwefan i gysylltu am fwy o fanylion.

Cyfrifon/Accounts

- Cyflog y clerc (mis Hydref) £106.36
- Praesept Hydref 2020 wedi'u fancio £1,833.33

Cytunwyd yn unfrydol i dalu'r uchod.

Cyngor Sir Ceredigion County Council

- Trafodwyd y Cais Cynllunio a ddaeth i law a chytunwyd i'w gefnogi ar gynnig Cyng Daniel Thomas ac eiliwyd gan Cyng Dafydd Morse
Ymgeisydd: T Caruthers
Safle: Haulfryn, Stags Head, Llangeitho, Tregaron
Y Bwriad: Domestic extension to dwelling.

Un Llais Cymru/One Voice Wales

Dim i'w adrodd.

Gwasanaeth Sul y Coffa / Remembrance day Service

Soniwyd bod y dorch arferol wedi'u harchebu ac yn mynd i gael ei gadael yn y Dafarn yn barod ar gyfer y diwrnod yn ôl y drefn arferol. Soniwyd bod y bobl oedd ynghlwm a'r trefniadau blynyddol yn anesmwyth iawn ynglŷn â chynnal gwasanaeth yn ôl yr arfer. Trafodwyd y mater a chytunwyd i beidio cynnal gwasanaeth yn 2020 ond i'r Cadeirydd rhoi'r dorch lawr yn ystod y dydd a gwahodd unrhyw bersonau oedd angen gosod blodau/torch i wneud yn ystod y dydd yn unigol. Cyng Daniel Thomas i gynnig bod y Cyngor Cymuned yn arwain poster yn hysbysu'r gymuned nad oedd gwasanaeth ar gael am 2020 a thrafod y manylion efo Mrs Glenys Davies.

Unrhyw Fater Arall/Any Other Business

- Yn dilyn Cyngor y Cyngor Sir, penderfynwyd cynnal Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Cyngor Cymuned yng Nghyfarfod mis Rhagfyr ar nos Lun 7fed o Ragfyr 2020.
- Soniwyd bod angen trafod y Praesept 2021-22 yn ein cyfarfod nesaf.
- Er gwybodaeth soniodd y Clerc ei bod wedi ymddiswyddo fel Clerc Cyngor Tref Tregaron ac yn gorffen yn y swydd ar 31 Rhagfyr 2020.
- Ni dderbyniwyd diweddariad am y cais cynllunio diwedd ar ddaear Penlan Penuwch.
- Angen sweeper yn yr ardal yn enwedig lan rhiw Sisyllt. Soniodd Cyng Rhodri Evans bod y sweeper a'r jettors wedi bod oddi amgylch unwaith yn barod.
- Trafodwyd y nifer o rieni a phlant oedd yn mynychu'r parc, soniwyd bod angen arddangos posteri ynglŷn â chadw pellter cymdeithasol, gan nad oedd y parc wedi'u gau yn ystod y cyfnod cyntaf o Covid-19, nid oedd yn berthnasol i gau'r parc ar hyn o bryd.
- Gofynnir a oedd yna ganllawiau Covid-19 ar gael o'r swyddfa Un Llais Cymru, Clerc yn rhannu pob gohebiaeth a dderbynnir ganddi o swyddfa Un Llais Cymru yn syth.
- Gofynnir yn garedig i'r Cynghorwyr i sicio cyflwr a maint o halen sydd yn y bocsys grit/halen yn y gymuned.
- Soniwyd am y nifer fawr o faniau iechyd sy'n cario offer hanfodol o ysbytau o'r de i'r gogledd gan ddefnyddio'r ffordd o Llanio drwy Llwynpiod allan am Tyn Celyn i fynd i Ysbyty Bronglais ac ati. Clerc i gysylltu â Chyngor Sir Ceredigion i'w hysbysu fod hi'n hanfodol gwneud yn siŵr bellach fod y ffordd yn cael ei graenu.
- Soniwyd am y nifer o grantiau sydd ar gael i wahanol fusnesau a phobl busnes, naill ai'n gyflogwr neu'n hunan gyflogedig a bod eisiau annog pawb i geisio am y grant perthnasol iddynt.

Dyddiad a Lleoliad y cyfarfod nesaf/Date & location of next meeting

Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar nos Lun 7fed o Ragfyr 2020 am 8 o'r gloch trwy Zoom.